

<b>Teitl:</b>	<b>Uwch Swyddog Safonau Masnach</b>
<b>Lleoliad:</b>	<b>Ystwyth</b>
<b>Cyfarwyddiaeth:</b>	<b>Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol</b>
<b>Rhif y Swydd:</b>	<b>BG00884</b>
<b>Cyflog:</b>	<b>Gradd 9 (£43,693- £47,754 y flwyddyn)</b>
<b>Oriau:</b>	<b>37</b>
<b>Contract:</b>	<b>Parhaol</b>

### **Crynodeb o'r Swydd**

Fel uwch aelod o'r Tîm Safonau Masnach, byddwch yn gorfodi'r ystod lawn o swyddogaethau Safonau Masnach gyda rolau arbenigol yn nisgyblaethau Safonau Bwyd a Mesureg a chyfrifoldeb rheoli am y rhaglen arolygu ar gyfer Safonau Bwyd.

### **Hysbyseb Lawn**

Mae gennym gyfle cyffrous i unigolyn profiadol a chryf eu cymhelliant ymuno â'n Tîm Safonau Masnach.

Mae'r swydd hon wedi'i dynodi'n un "ystwyth", gan ddarparu ar gyfer cymysgedd o weithio gartref a gweithio mewn swyddfa.

Rydym yn chwilio am Uwch Swyddog Safonau Masnach hynod broffesiynol ag ymrwymiad i waith Safonau Masnach a brwdfrydedd drosto.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhywun sy'n gallu gweithio fel aelod hyblyg, creadigol a chefnogol o dîm a chanddynt sgiliau cyfathrebu rhagorol a dealltwriaeth drylwyr am y dirwedd Safonau Masnach a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Byddwch yn rhan o amrywiaeth o waith Safonau Masnach lle bydd gennych rôl allweddol i sicrhau bod ein dyletswyddau statudol a'n blaenoriaethau allweddol yn cael eu cyflawni, yn enwedig mewn perthynas â Safonau Bwyd.

Fel uwch aelod o'r tîm bydd hi'n ofynnol i chi fod yn meddu ar y Diploma mewn Safonau Masnach (neu gymhwyster cyfwerth cydnabyddedig) gan gynnwys Safonau Bwyd a Mesureg, a gallu dangos profiad sylweddol ar ôl ennill y cymhwyster. Profiad Hylendid Bwyd Anifeiliaid a Chymhwyster Archwilio Ansawdd hefyd yn fuddiol ac mae disgwyl ymrwymiad i CPPD hefyd.

Mae proses ailstrwythuro yn yr arfaeth ar gyfer y tîm hwn a allai ddarparu cyfleoedd i gamu ymlaen yn y rôl.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â Steve Osborne, Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrywyddedu ar 01495 369542.

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gymraeg i Wneud Cais am Swydd.**

**I gael gwybodaeth am ailgyflogaeth ac ail-gyflogi cyn-weithwyr, cyfeiriwch at Bolisi Tâl y Cyngor.**

**Dyddiad Cau: 28 o Dachwedd 2024 - 12:00yb, canol nos**

**Dyddiad Cyfweiliad: 16/12/2024**